Ffurflen EUR1

The Electoral Commission

Cais i gofrestru fel ymgyrchydd - Refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd

Os bwriadwch wario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm, rhaid i chi gofrestru â ni fel 'ymgyrchydd cofrestredig'.

Os na wnewch gofrestru, neu os nad ydych yn gymwys i gofrestru, ni allwch wario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod a reoleiddir y refferendwm.

Rhaid i chi fod yn gymwys i gofrestru. I gael rhagor o wybodaeth am unigolion a sefydliadau cymwys gweler Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE.

Mae cofrestru ar-lein yn broses syml. Fel arall rydym wedi darparu ffurflen i gofrestru fel ymgyrchydd. Dylech ddarllen y canllawiau cysylltiedig cyn cwblhau'r ffurflen hon.

Ar gyfer pwy y mae'r ffurflen hon:

Unigolion neu sefydliadau (gan gynnwys pleidiau gwleidyddol), sy'n bwriadu gwario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn Refferendwm yr UE.

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio ‘rhaid’ wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio ‘dylai’ ar gyfer eitemau sydd yn arfer da sylfaenol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol na rheoleiddiol.

Important

Canllawiau cysylltiedig:

- Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE
- Gwariant ar gyfer Ymgyrchwyr Refferendwm yr UE
- Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE
- Benthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE
- Caniatâd ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE

Nodiadau eglurhaol

Adran 1 - Manylion am ganlyniad y refferendwm

Rhaid i chi ddweud wrthym pa ganlyniad refferendwm y byddwch yn ymgyrchu drosto.

Adran 2- Manylion yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n gwneud cais i gofrestru

Os mai unigolyn ydych, rhaid i chi roi eich enw llawn a'ch cyfeiriad cartref i ni. Rhowch y manylion cyswllt ychwanegol y gofynnwyd amdanynt hefyd.

Os ydych yn cofrestru fel cwmni rhaid i chi roi enw a chyfeiriad y cwmni a rhif cofrestru'r cwmni. Rhaid i chi ddefnyddio cyfeiriad swyddogol y cwmni, fel swyddfa gofrestredig neu bencadlys. Rhaid i chi hefyd roi'r manylion cyswllt ychwanegol y gofynnwyd amdanynt ar y ffurflen.

Ar gyfer pob sefydliad arall rhaid i chi roi enw a chyfeiriad y sefydliad. Rhaid i chi ddefnyddio cyfeiriad swyddogol y sefydliad, fel swyddfa gofrestredig neu bencadlys. Rhaid i chi hefyd roi'r manylion cyswllt ychwanegol y gofynnwyd amdanynt ar y ffurflen.

Os mai sefydliad ydych, dylech roi eich enw ymgyrchu i ni os yw'n wahanol i'ch enw cofrestredig swyddogol. Os rhowch hyn byddwn yn ei gyhoeddi ar y gofrestr.

Ni fyddwn yn cofrestru cymdeithas anghorfforedig sydd ag enw sy'n sarhaus neu'n anweddus. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol ac mae ein canllawiau yn esbonio sut rydym yn cymhwyso'r profion statudol. I gael rhagor o wybodaeth gweler Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE

Adran 3 - Statws

Dylech ddweud wrthym a ydych yn cofrestru o'r tu mewn i'r DU neu Gibraltar.

Dylech ddweud wrthym os ydych yn cofrestru fel:

- unigolyn sydd wedi cofrestru ar un o gofrestrau etholiadol y DU neu Gibraltar
- plaid wleidyddol sydd wedi cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol
- y math o sefydliad rydych am ei gofrestru

Adran 4 - Hysbysu'r unigolyn cyfrifol ar gyfer eich sefydliad

Rhaid i chi gwblhau'r adran hon oni bai eich bod:

- yn ymgyrchydd unigol gan mai chi yn awtomatig fydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth
- yn blaid gwleidyddol (oni bai ei bod yn blaid lai), oherwydd caiff trysorydd eich plaid ei benodi'n awtomatig yn unigolyn sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth

Rhaid i sefydliadau eraill, gan gynnwys pleidiau llai, roi manylion yr unigolyn sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth yn y sefydliad.

Ni ddylai unigolyn weithredu fel yr unigolyn cyfrifol ar gyfer mwy nag un ymgyrchydd cofrestredig.

Important

Os bydd unrhyw un o'r manylion hyn yn newid ar ôl i chi gyflwyno'r cais, rhaid i chi ein hysbysu am y newidiadau. Gallwch wneud hyn drwy CPE ar-lein neu drwy gysylltu yn uniongyrchol â ni.

Adran 5 - Datganiad gan yr unigolyn cyfrifol ar gyfer eich sefydliad

Important

Os mai plaid wleidyddol yw eich sefydliad, rhaid i drysorydd cofrestredig y blaid lofnodi.

Os mai unigolyn ydych rhaid i chi lofnodi'r datganiad eich hun.

Ar gyfer sefydliadau eraill rhaid i'r unigolyn cyfrifol a enwir yn adran 4 lofnodi'r datganiad.

Adran 6 - Llofnodion

Important

Os mai plaid wleidyddol yw eich sefydliad, rhaid i arweinydd cofrestredig y blaid, trysorydd cofrestredig y blaid a swyddog enwebu cofrestredig lofnodi'r datganiad (ynghyd â swyddog arall os mai'r un person yw'r arweinydd, y trysorydd a'r swyddog enwebu).

Os mai unigolyn ydych rhaid i chi lofnodi'r datganiad eich hun.

Os ydych yn cofrestru un o'r sefydliadau eraill a restrir yn adran 3, rhaid i ysgrifennydd eich sefydliad lofnodi'r datganiad. Os nad oes gennych ysgrifennydd, rhaid i rywun sydd mewn swydd debyg yn eich sefydliad ei lofnodi.

Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar y gofrestr gyhoeddus o ddatganiadau a hysbysiadau ar gyfer y refferendwm, ond ni fyddwn yn cyhoeddi cyfeiriad unrhyw unigolyn.

Llenwi ac anfon y ffurflen atom

Rhaid i chi gofrestru fel ymgyrchydd **cyn** i chi wario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn y refferendwm. Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol.

Gallwch hefyd gofrestru fel ymgyrchydd ar-lein.

Bydd y broses gofrestru fel arfer yn cymryd pum diwrnod gwaith. Byddwn yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gennych ac yn cadarnhau yn ysgrifenedig pan fydd eich cofrestriad mewn grym.

Dychwelwch y ffurflen drwy'r post neu drwy ffacs neu e-bost i:

Party and Election Finance
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1929
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost:pef@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

Byddwn yn cydnabod pob cais o fewn un diwrnod gwaith.

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol:

The Electoral Commission

Cais i gofrestru fel ymgyrchydd: refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd

Adran 1 - Manylion am ganlyniad y refferendwm

Y canlyniad rydych yn bwriadu ymgyrchu drosto:

Aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd ☐

Gadael yr Undeb Ewropeaidd ☐

Adran 2- Manylion yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n gwneud cais i gofrestru

Enw'r unigolyn neu'r sefydliad	
Enw'r ymgyrchydd (os yw'n wahanol)	
Cyfeiriad	
Tref	Cod post
Rhif ffôn	
Cyfeiriad e-bost	
Rhif cofrestru'r cwmni (os yw'n berthnasol)	

Adran 3 - Statws

A ydych yn cofrestru fel unigolyn/sefydliad o fewn y DU neu Gibraltar?

Y DU	☐	Gibraltar	☐

A ydych yn cofrestru fel unigolyn neu blaid wleidyddol?

Unigolyn	☐	Ewch yn syth i adran 5 - y datganiad
Plaid wleidyddol gofrestredig (Heblaw plaid lai)	☐	Ewch yn syth i adran 5 - y datganiad

Sefydliadau eraill — Ticiwch y blwch priodol ar gyfer eich sefydliad ac ewch i adran 4 - manylion eich unigolyn cyfrifol

Plaid wleidyddol lai	☐	Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig	☐
Cymdeithas adeiladu	☐	Cymdeithas lesiant	☐
Undeb llafur	☐	Cymdeithas anghorfforedig	☐
Corff sydd wedi ei gorffori gan Siarter Frenhinol	☐	Sefydliad anghorfforedig elusennol	☐
Partneriaeth Albanaidd	☐	Cwmni	☐

Adran 4 - Hysbysu'r unigolyn cyfrifol ar gyfer eich sefydliad

Teitl		Enw(au) Cyntaf	
Cyfenw			
Cyfeiriad			
Tref		Cod post	
Rhif ffôn			
Cyfeiriad e-bost			

Adran 5 - Datganiad gan yr unigolyn cyfrifol ar gyfer eich sefydliad

Rwy'n datgan bod gennyf yr awdurdod i lofnodi'r cais hwn yn rhinwedd fy swydd fel yr unigolyn cyfrifol ac ar ran y cyfranogwr a ganiateir a enwir uchod.

Cadarnhaf fy mod yn deall ac yn fodlon ymarfer, mewn perthynas â'r refferendwm, y swyddogaethau a roddwyd i'r unigolyn cyfrifol gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ac yn unol â'r ddeddf honno, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015. Rwy'n datgan nad wyf eisoes yn unigolyn cyfrifol ar gyfer cyfranogwr a ganiateir.

Llofnod	
Enw	
Dyddiad	

Adran 6 - Llofnodion

Rwy'n datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod y wybodaeth a ddarparwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac mai: (ticiwch y blwch priodol isod):

Fi yw'r unigolyn a enwir, neu ☐

Ni yw swyddogion cyfrifol y blaid wleidyddol a enwir uchod, neu ☐

Fi yw'r ysgrifennydd, neu'r un sy'n gweithredu mewn rôl debyg i ysgrifennydd y sefydliad a enwir uchod. ☐

Llofnod

Enw

Swydd

Dyddiad

Llofnod

Enw

Swydd

Dyddiad

Llofnod

Enw

Swydd

Dyddiad

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol

Dyddiad derbyn		Gwiriwyd gan	
Dyddiad cofnodi yn y gronfa ddata		Rhif cyfeirnod ffeil	